**ATODIAD B.**

# CYMHARIAETH O GYNIGION DRAFFT Y COMISIWN FFINIAU YN ERBYN YR EGWYDDORION A GYNIGIWYD GAN GYNGOR GWYNEDD YN EU SYLWADAU CYCHWYNNOL.

| EGWYDDOR Y CYNGOR | CYNNIG Y COMISIWN | YMATEB Y CYNGOR. |
|---|---|---|
| Mae angen 65 aelod i gyflawni swyddogaethau'n effeithiol. | Gostwng nifer yr aelodau o 75 i 66. | Mae'r Cyngor yn croesawu'r nifer a gynigir gan ei fod yn cyd-fynd hefo barn y Cyngor ei hun. |
| Dylid amrywio'r gymhareb aelod i etholwr yn ôl gofynion yr ardal, e.e. proffil poblogaeth, daearyddiaeth a natur yr ardal. | Ymdrechu i roi pwyslais ar wella cydraddoldeb etholiadol trwy gadw'r gymhareb yn agos i'r cyfartaledd of 1:1297. Dan y cynigion drafft bydd 89% o'r aelodaeth yn dod o fewn +/-25% o'r cyfartaledd o'i gymharu â 52% dan y trefniadau presennol. | Tra'n derbyn nad yw amrywiaethau mawr yn ddymunol, creda'r Cyngor na ddylid cyflawni hyn ar draul natur a gofynion yr ardal. Gweler yn arbennig y sylwadau isod am gysylltiadau lleol a rhanbarthau aml aelod. |
| Ni ddylai unrhyw gynghorydd gael rhagor na dau gyngor cymuned o fewn y rhanbarth etholiadol. | Cydnabod y sylw ond mae'r cynigion yn cynyddu nifer y rhanbarthau sy'n cynnwys 3 neu fwy o gymunedau o 4 i 6 trwy ychwanegu Aberdyfi (3 cyngor cymuned a Llanuwchllyn a Mawddwy (3 cyngor cymuned). | Nid yw'r cynigion yn cyd-fynd hefo dymuniad y Cyngor i weld gostyngiad yn nifer y rhanbarthau etholiadol sy'n cynnwys rhagor na 2 gymuned. |
| Nid yw'r Cyngor yn cefnogi cynyddu nifer y rhanbarthau aml-aelod. | Cynyddu nifer y rhanbarthau aml-aelod o 4 i 8. Mae'r cynnig yn cynnwys diddymu un rhanbarth aml-aelod bresennol a chreu 5 newydd. | Barn y Cyngor ydi mai dau aelod i bob rhanbarth sy'n rhoi'r trefniadau mwyaf hwylus ac effeithiol. Mae'n anodd gweld y cyfiawnhad dros greu rhanbarthau aml-aelod newydd, yn arbennig yn y rhanbarthau hynny lle nad yw'n newid y gymhareb aelod:etholwr yn sylweddol. Y rhagdybiaeth statudol ydi un aelod i bob rhanbarth. |

| EGWYDDOR Y CYNGOR | CYNNIG Y COMISIWN | YMATEB Y CYNGOR. |
|---|---|---|
| Ni ddylid cynyddu nifer yr aelodau yn y rhanbarthau aml-aelod presennol uwchlaw dau. | Mae un o'r cynigion yn cynnig rhanbarth 3 aelod. | Nid yw'r cynnig yn cyd-fynd hefo egwyddor y Cyngor, sydd wedi anelu at gael trefniadau etholiadol hwylus ac effeithiol. Rhoddir gormod o bwyslais ar gydraddoldeb etholiadol ar draul y cyfarwyddyd i beidio newid patrwm presennol adrannau aml-aelod heb gefnogaeth gyffredinol gan yr etholwyr i'r newid. |
| Dylid cymryd ystyriaeth o'r boblogaeth sydd heb gofrestru mewn rhai mannau o'r sir, e.e. poblogaeth dymhorol. | Nid oes unrhyw dystiolaeth fod yr egwyddor hon wedi derbyn sylw. | Mae egwyddor y Cyngor yn parhau'n berthnasol. |
| Dylid cadw at yr ardaloedd hanesyddol Arfon, Dwyfor a Meirionnydd oni bai fod achos teilwng dros wyro oddi wrthynt. | Mae un o'r cynigion yn cynnig rhanbarth fyddai'n croesi ffin Arfon a Dwyfor (er fod y Comisiwn wedi rhoi sylw i'r egwyddor wrth lunio cynigion eraill). | Mae'r ardaloedd hanesyddol yn bwysig o ran cadw cysylltiadau lleol , a byddai rhain yn cael eu torri wrth i ranbarth groesi'r ffin. Mae'r dymunoldeb o gadw cysylltiadau lleol a fyddai yn cael eu torri wrth lunio unrhyw ffin benodol yn un o'r gofynion statudol ar y Comisiwn ac mae'r Cyngor yn awyddus i'r ardaloedd hyn gael eu parchu. |
| Rhoi ystyriaeth i ddalgylchoedd ysgolion uwchradd a pheidio â gosod rhanbarth sy'n cwmpasu mwy nag un dalgylch. | Ni does unrhyw dystiolaeth fod yr egwyddor hon wedi derbyn sylw. | Mae egwyddor y Cyngor yn parhau'n berthnasol. |